

DYDD LLUN, 31 HYDREF 2022

AT: HOLL AELODAU'R PWYLLGOR TRWYDDEDU

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R **PWYLLGOR TRWYDDEDU** A GYNHELIR YN Y **SIAMBR, NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN, AC O BELL AM 10.00 YB, DYDD LLUN, 7FED TACHWEDD, 2022** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA ATODEDIG.

Wendy Walters

PRIF WEITHREDWR



AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA

Swyddog Democrataidd:	Julie Owens
Ffôn (Llinell Uniongyrchol):	01267 224088
E-bost:	JuOwens@sirgar.gov.uk

Wendy Walters Prif Weithredwr, *Chief Executive*,
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
County Hall, Carmarthen. SA31 1JP

PWYLLGOR TRWYDDEDU

14 AELOD

Y GRŴP PLAID CYMRU – 8 AELOD

- | | | |
|----|--------------|--------------------------------|
| 1. | Y Cynghorydd | Mansel Charles [Cadeirydd] |
| 2. | Y Cynghorydd | Alex Evans |
| 3. | Y Cynghorydd | Tyssul Evans |
| 4. | Y Cynghorydd | Ken Howell |
| 5. | Y Cynghorydd | Hefin Jones |
| 6. | Y Cynghorydd | Jean Lewis |
| 7. | Y Cynghorydd | Dorian Phillips [Is-Gadeirydd] |
| 8. | Y Cynghorydd | Elwyn Williams |

Y GRŴP LLAFUR – 4 AELOD

- | | | |
|----|--------------|--------------|
| 1. | Y Cynghorydd | Peter Cooper |
| 2. | Y Cynghorydd | Suzy Curry |
| 3. | Y Cynghorydd | Dot Jones |
| 4. | Y Cynghorydd | Kevin Madge |

Y GRŴP ANNIBYNNOL – 2 AELOD

- | | | |
|----|--------------|-----------------|
| 1. | Y Cynghorydd | Louvain Roberts |
| 2. | Lle Gwag | |

DYLAI AELODAU FOD YN YMWYBODOL NA CHANIATEIR IDDYNT OFYN I AELODAU O FEWN EU GRWPIAU EU HUNAIN I'W CYNRYCHIOLI MEWN CYFARFODYDD O'R PWYLLGOR YMA

AGENDA

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**
2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.**
3. **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD YR ISBWYLLGOR TRWYDDEDU "B" A GYNHALIWDYD AR 18FED HYDREF, 2022.** 5 - 12
4. **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWDYD AR 11EG HYDREF, 2022.** 13 - 18
5. **GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD.**

NI DDYLID CYHOEDDI'R ADRODDIADAU SY'N YMWNEUD Â'R MATERION CANLYNOL GAN EU BOD YN CYNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG FEL Y'I DIFFINIWDYD YM MHARAGRAFF 12 O RAN 4 O ATODLEN 12A I DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 FEL Y'I DIWYGIWDYD GAN ORCHYMYN LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) (AMRYWIO) (CYMRU) 2007 GAN EI FOD YN CYNWYS GWYBODAETH AM UNIGOLYN PENODOL.

OS BYDD Y PWYLLGOR, AR ÔL CYNNAL PRAWF LLES Y CYHOEDD, YN PENDERFYNU YN UNOL Â'R DDEDDF, I YSTYRIED Y MATERION HYN YN BREIFAT, GORCHMYNNIR I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD YN YSTOD TRAFODAETH O'R FATH.
6. **MR SHAUN CRAIG LANE CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT.** 19 - 22
7. **MR KEVIN JONES CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT.** 23 - 26
8. **MR STUART PROTHEROE TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT.** 27 - 30

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU B

18 HYDREF 2022

PRESENNOL: (Yn y Siambr): Cynghorydd D.E. Williams (Cadeirydd).

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

H. Jones, B.D.J. Phillips.

Hefyd yn bresennol fel sylwedydd (Yn rhithwir):

K. Madge.

Yn bresennol fel cynrychiolwyr Awdurdod Cyfrifol (Yn rhithwir):-

D. Bizby, Cynrychiolydd Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys;

A. Morgan, Ymarferydd Iechyd Yr Amgylchedd.

Yn bresennol fel cynrychiolwyr Awdurdod Cyfrifol (Yn y Siambr):-

E. Jones, Arweinydd Trwyddedu.

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):

R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

A. Rees, Swyddog Trwyddedu

K. Smith, Swyddog Trwyddedu

E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;

S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd

J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyddin, SA31 1JP ac o bell:-10.00 - 11.50 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

3. CAIS AM DRWYDDED SAFLE ZABKA SUPER MINIMARKET, 21 STRYD COWELL, LLANELLI SA15 1UU

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol wybodaeth i bawb oedd yn bresennol am y weithdrefn ar gyfer yr eitem hon a oedd wedi'i rhoi gerbron y Pwyllgor i ystyried cais gan Zabka Super Minimarket am Drwydded Safle mewn perthynas â 21 Stryd Cowell, Llanelli SA15 1UU.

Cais i ganiatáu:-

Cyflenwi Alcohol/Oriau Agor –

- Dydd Llun i ddydd Sadwrn 08:30-22:30,
- Dydd Sul 09:00 – 21:00.

Nododd yr Is-bwyllgor fod y dogfennau canlynol ynghlwm wrth yr adroddiad:-

Atodiad A – copi o'r cais gwreiddiol

Atodiad B – sylwadau a gyflwynwyd gan Heddlu Dyfed-Powys

Atodiad C – sylwadau a gyflwynwyd gan bobl eraill.

Cafwyd sylwadau gan Gynghorydd Sir y ward leol, T. Davies. Ategodd y Cynghorydd Davies y pwyntiau a godwyd yn ei sylwadau, fel y nodir yn Atodiad C yr adroddiad. Yn ogystal, dywedodd y Cynghorydd Davies fod trigolion wedi cysylltu ag ef a oedd yn poeni am ymddygiad gwrthgymdeithasol cysylltiedig ag alcohol. Mae Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus ar waith yn y dref a oedd yn cael ei ddiystyru.

Dywedodd y Cynghorydd Davies fod llawer o broblemau wedi bod o ran gwyrdd wedi torri o boteli alcohol yn yr ardal. Dywedodd nad oedd ganddo wrthwynebiad i'r tafarndai a'r clybiau yn yr ardal gan fod alcohol yn cael ei werthu a'i yfed ar y safle. Hefyd, nid oedd ganddo broblemau gydag Asda a siopau eraill y tu allan i ganol y dref. Fodd bynnag, dywedodd fod problem yn ymwneud â gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle yng nghanol y dref ac mai un siop benodol oedd y prif achos.

Dywedodd y Cynghorydd Davies fod un siop ddiodydd drwyddedig ger parc y dref. Pan oedd trwydded gan y safle hwn, roedd yn achosi problemau.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi'r Cynghorydd Davies ynghylch ei sylwadau.

Ymatebodd asiant yr ymgeisydd ar ran yr ymgeisydd, a oedd yn bresennol yn y cyfarfod, i'r gwrthwynebiad yr oedd y cynrychiolydd lleol wedi'i wneud. Dywedodd asiant yr ymgeisydd fod y siop wedi bod yn ei lle ers 4 blynedd a chyfeiriodd at baragraff 10.15 o'r canllawiau statudol. Dywedodd asiant yr ymgeisydd fod ei gleient yn deall yr amcanion trwyddedu ac y byddai'n sicrhau bod mesurau ar waith gan gynnwys: cofnodion hyfforddiant manwl, llyfr gwrthod a llyfr digwyddiadau. Byddai'r ardal y tu allan i'r safle yn cael ei chadw'n glir ac wrth werthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle byddai pobl yn cael eu hannog i fynd â hwnnw gartref gyda hwy i'w yfed. Yn ogystal, dywedwyd bod ei gleient wedi cytuno ar amodau trwydded yr heddlu fel y nodwyd yn Atodiad B. Mae'r ymgeisydd yn byw yn ardal y safle ac yn deall pryderon y trigolion lleol.

Rhodddwyd cyfle i'r holl bartïon holi'r ymgeisydd ynghylch y sylwadau a wnaed.

Mewn ymateb i ymholiadau a godwyd gan Aelodau'r Is-bwyllgor, dywedodd asiant yr ymgeisydd y byddai'r ymgeisydd yn barod i wneud y canlynol:

- lleihau'r oriau terfynol i 22.00 yn ystod yr wythnos;
- cyflwyno mesurau i olrhain yr alcohol a werthir;
- arddangos hysbysiad yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am y Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol.

Ar ôl ystyried y paragraffau perthnasol o Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu a'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a chan y Swyddfa Gartref:

PENDERFYNODD yr Is-bwyllgor, ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a roddwyd ger ei fron, y dylid caniatáu'r cais yn unol â'r oriau y gofynnwyd amdanynt yn wreiddiol, yn amodol ar yr amodau trwydded y cytunwyd arnynt â'r heddlu

RHESYMAU:

Wrth benderfynu ar y cais, roedd y ffeithiau canlynol yn hysbys i'r Is-bwyllgor:

1. Nid yw'r safle ei hun mewn stryd yr oedd Datganiad Polisi Trwyddedu y Cyngor yn nodi ei bod yn lle problemus o ran troseddau ac anrhefn, ond mae'n agos at strydoedd o'r fath.
2. Yn eu sylwadau, nid oedd yr Heddlu wedi darparu unrhyw dystiolaeth fod yna hanes o droseddau ac anhrefn cysylltiedig ag alcohol ar y safle neu'n ymwneud â'r safle.
3. Roedd y safle wedi cael trwydded i werthu alcohol o'r blaen.
4. Nid oedd unrhyw un o'r awdurdodau cyfrifol wedi gwrthwynebu caniatáu'r cais.
5. Roedd yr ymgeisydd wedi derbyn yr amodau trwydded ychwanegol yr oedd yr heddlu wedi gofyn amdanynt.

Roedd yr Is-bwyllgor wedi rhoi pwys ar farn yr Awdurdodau Cyfrifol, gan fod rheidrwydd cyfreithiol arno i wneud hynny. Felly mae'n rhaid i'r ffaith nad oes yr un ohonynt yn gwrthwynebu'r cais fod yn ystyriaeth bwysig i'r pwyllgor.

Mae'r Is-bwyllgor yn cydnabod bod yn rhaid i'w benderfyniad gael ei seilio ar dystiolaeth wirioneddol, ac nad yw pryderon nac ofnau ynghylch yr hyn a allai ddigwydd pe caniateid trwydded, lle nad oedd dystiolaeth o'r fath i'w hategu, yn faterion y gallant roi ystyriaeth briodol iddynt.

Gan ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd, a rhannau perthnasol o ganllawiau statudol a datganiad polisi trwyddedu y cyngor, mae'r pwyllgor yn fodlon na fyddai caniatáu'r cais, yn amodol ar yr amodau trwydded ychwanegol y cytunwyd arnynt rhwng yr ymgeisydd a'r heddlu, yn tansellio unrhyw un o'r amcanion trwyddedu. Hefyd roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod angen yr amodau trwydded ychwanegol hynny i hyrwyddo'r amcanion hynny a'u bod yn ymateb cymesur i'r materion a nodwyd gan y Cyngorhwy'r lleol.

4. CAIS AM ADOLYGU TRWYDDED SAFLE BLUE BELL INN, 19 STRYD FAWR, LLANYMDDYFRI, SIR GAR SA20 OPU.

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol y wybodaeth ddiweddaraf i bawb a oedd yn bresennol am y weithdrefn ar gyfer yr eitem hon a oedd wedi'i rhoi gerbron y Pwyllgor i ystyried cais gan yr Arweinydd Trwyddedu ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin am Adolygu trwydded safle mewn perthynas â thafarn y Blue Bell, 19 Stryd Fawr, Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin lle, yn ogystal â chwynion a oedd wedi cael eu cyflwyno, gwaith monitro gan lechyd yr Amgylchedd ac ymweliadau cydymffurfio gan Heddlu Dyfed-Powys a Swyddogion Trwyddedu y Cyngor, roedd gan yr Awdurdod Trwyddedu bryderon bod diffyg rheolaeth a rheoli ar y safle.

Nododd yr Is-bwyllgor fod y dogfennau canlynol ynghlwm wrth yr adroddiad:-

Atodiad A – copi o'r cais gwreiddiol

Atodiad B – sylwadau a gyflwynwyd gan Heddlu Dyfed-Powys

Atodiad D – sylwadau a gyflwynwyd gan Wasanaethau lechyd y Cyhoedd

Atodiad D - sylwadau gan bobl eraill

Cyfeiriodd yr Arweinydd Trwyddedu at ei sylwadau ysgrifenedig, fel y nodir yn Atodiad A yr adroddiad, ac amlinellodd i'r Is-bwyllgor y digwyddiadau a arweiniodd at gyflwyno'r cais am adolygu'r drwydded safle.

Amlinellodd y digwyddiadau/cwynion niferus a oedd yn gysylltiedig â'r safle dros gyfnod hir a'r ymchwiliadau a'r ymweliadau cydymffurfio a gynhaliwyd gan yr awdurdodau cyfrifol.

Ymgysylltwyd dro ar ôl tro â deiliad blaenorol y drwydded safle, Anna Reed, ond heb unrhyw newid na gwelliant yn dilyn hynny ac roedd y materion yn parhau. Roedd hysbysiad atal sŵn wedi cael ei gyflwyno gan Swyddogion lechyd yr Amgylchedd, ac nid oedd dim newid yn sgil hynny. O ystyried yr holl ymdrechion a wnaed heb unrhyw effaith gadarnhaol, barnwyd felly bod angen adolygu'r drwydded.

Ers cyflwyno'r cais am adolygu'r drwydded, roedd Ms Reed wedi gadael y safle ac ildio'r drwydded. Ar yr un diwrnod, cyflwynodd perchennog y safle, Mrs Colette Walsh, gais am drosglwyddo'r drwydded a ganiatawyd, ond ar yr adeg hon roedd y safle ar gau ac nid oedd yn masnachu.

Rhodddwyd gwybod i'r Is-bwyllgor, er nad oedd yna gais mwyach i ddirymu'r drwydded, roedd yna gais i osod amodau trwydded ychwanegol a dileu'r esemptiad cerddoriaeth fyw ar y safle.

Yn bennaf, roedd y cwynion yn ymwneud ag adloniant byw yn yr ardd gwrw o dan yr esemptiad cerddoriaeth fyw. Byddai dileu'r esemptiad yn sicrhau bod unrhyw adloniant byw yn y dyfodol yn destun yr un amodau â gweddill y safle.

Yng ngoleuni'r ffaith bod deiliad blaenorol y drwydded, Anna Reed, wedi gadael, cafodd set ddiwygiedig o amodau trwydded y cytunwyd arnynt â'r Heddlu a Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd ac a gyflwynwyd i ddeiliad newydd y drwydded, ei rhannu ag aelodau'r Is-bwyllgor. Rhodddwyd ychydig funudau i'r aelodau ddarllen ac ystyried yr amodau diwygiedig. Roedd yr Ymgeisydd o'r farn ei bod yn briodol ychwanegu'r amodau at y drwydded gan nad oedd yn glir pwy fyddai'n gweithredu'r safle yn y dyfodol. Ms Walsh oedd deiliad y drwydded yn flaenorol, ac yn ystod y cyfnod hwn dim ond nifer fechan o gwynion a gafwyd.

Rhodddwyd cyfle i'r holl bartïon oedd yn bresennol holi'r Arweinydd Trwyddedu ynghylch ei sylwadau.

Cyfeiriodd cynrychiolydd Awdurdod yr Heddlu at ei sylwadau ysgrifenedig, fel y nodir yn Atodiad B yr adroddiad, a oedd yn cefnogi safbwynt yr Awdurdod Trwyddedu. Dywedodd fod y safle wedi cael ei reoli'n wael gan ddeiliad blaenorol y drwydded safle, Anna Reed, a oedd yn cynnwys nifer o ymweliadau gan yr heddlu heb unrhyw welliant dilynol. Pwysleisiwyd bod yr amodau yn angenrheidiol gan nad oedd yn glir pwy fyddai'n gweithredu'r safle yn y dyfodol.

Cyfeiriodd cynrychiolydd y Gwasanaeth Iechyd y Cyhoedd at ei sylwadau ysgrifenedig, fel y nodir yn Atodiad C yr adroddiad, ynglŷn â'r ymweliadau safle a'r gwaith monitro sŵn a wnaed. Rhodddwyd cyngor i ddeiliad y drwydded safle, Anna Reed, ond ni chafodd hyn ei ddilyn. Roedd lefel y sŵn mor sylweddol fel bod Hysbysiad Statudol yn bodoli a bod Hysbysiad Atal wedi'i roi. Yn anffodus, roedd cwynion yn parhau i gael eu cyflwyno nes i Ms Reed adael y safle.

Er budd aelodau'r Is-bwyllgor, chwaraeodd y Swyddog Gwasanaethau Amgylcheddol ddetholiad o recordiadau i ddangos natur a maint y materion, hyd yn oed ar ôl i Hysbysiad Atal gael ei gyflwyno.

O ystyried bod Ms Reed wedi gadael y safle ers hynny, dywedodd Swyddog y Gwasanaethau Amgylcheddol ei fod yn cefnogi'r amodau awgrymedig.

Er bod Mrs Collette Walsh, deiliad newydd y drwydded, yn bresennol yn y cyfarfod, roedd yn cael ei chynrychioli gan ffrind a esboniodd fod Mrs Walsh wedi prynu'r eiddo yn 2007 a'i reoli tan 2015, ac yn ystod y cyfnod hwn ni fu unrhyw broblemau mewn perthynas â'r eiddo na'r drwydded. Esboniwyd pam y bu'n rhaid iddi roi'r gorau i weithredu'r safle. Yna gosododd Mrs Walsh y safle ar rent, ond yn anffodus daeth y tenantiaid yn broblem wirioneddol ac yna gadawsant y safle mewn dyled o ran rhent ac wedi achosi difrod sylweddol. Byddai'r eiddo'n cael ei roi ar y farchnad cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol.

Ar ôl ystyried y paragraffau perthnasol o Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu a'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a chan y Swyddfa Gartref:

PENDERFYNODD yr Is-bwyllgor, ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a roddwyd ger ei fron, y dylid ymdrin â'r cais fel a ganlyn:-

- 1. Nid yw darpariaethau Adran 177A o Ddeddf Trwyddedu 2003 (esemptiad cerddoriaeth fyw) yn berthnasol i'r safle bellach;**
- 2. Bod yr amodau ychwanegol/diwygiedig yr oedd yr awdurdodau cyfrifol wedi cytuno arnynt yn cael eu hychwanegu at y drwydded**

RHESYMAU:

Wrth benderfynu ar y cais, roedd y ffeithiau canlynol yn hysbys i'r Is-bwyllgor:

1. O dan ei reolwr blaenorol roedd y safle yn ffynhonnell troseddau ac anhrefn cysylltiedig ag alcohol a niwsans cyhoeddus.
2. Roedd y rheolwr blaenorol bellach wedi gadael y safle.
3. Nid oedd yr amodau trwydded presennol yn ddigonol i sicrhau bod y safle yn cael ei reoli'n briodol yn y dyfodol.
4. Roedd yr awdurdodau cyfrifol wedi cytuno ar amodau trwydded diwygiedig y maent yn eu hystyried yn ddigonol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.
5. Roedd deiliad newydd y drwydded safle wedi cytuno i ddileu'r esemptiad cerddoriaeth fyw oddi ar y drwydded.
6. Nid yw'r ymgeiswyr bellach yn ceisio dirymu'r drwydded safle.
7. Roedd y safle ar gau ar hyn o bryd.

Roedd yr Is-bwyllgor wedi rhoi pwys ar farn yr Awdurdodau Cyfrifol, gan fod rheidrwydd cyfreithiol arno i wneud hynny. Felly rhaid i'r ffaith nad oes yr un ohonynt bellach yn ceisio dirymu'r drwydded safle fod yn ystyriaeth bwysig i'r Is-bwyllgor.

Roedd yr Is-bwyllgor yn cydnabod bod yn rhaid i'w benderfyniad gael ei seilio ar dystiolaeth wirioneddol, ac nad yw pryderon nac ofnau ynghylch yr hyn a allai ddigwydd, lle nad oedd dystiolaeth o'r fath i'w hategu, yn faterion y gallant roi ystyriaeth briodol iddynt. Yn yr achos hwn, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod dystiolaeth go iawn bod gweithrediad y safle o dan ei reolwr blaenorol yn tansellio'r amcanion trwyddedu.

Gan ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd, a rhannau perthnasol o ganllawiau statudol a datganiad polisi trwyddedu y cyngor, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon y byddai ychwanegu'r amodau trwydded ychwanegol y cytunwyd arnynt rhwng deiliad newydd y drwydded safle a'r awdurdodau cyfrifol, yn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Hefyd roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod yr amodau trwydded ychwanegol hynny yn ymateb cymesur i'r materion a nodwyd yn y dystiolaeth.

Hefyd roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon, o ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd ynglŷn ag effaith digwyddiadau cerddoriaeth fyw yn y gorffennol ar drigolion lleol, ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur dileu'r esemptiad cerddoriaeth fyw oddi ar y drwydded er mwyn hyrwyddo'r amcan trwyddedu o ran atal niwsans cyhoeddus.

CHAIR

DATE

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

DYDD MAWRTH, 11 HYDREF 2022

PRESENNOL Cynghorydd J.M. Charles (Cadeirydd)

Cynghorwyr (yn y Siambr):

P. Cooper

Cynghorwyr (yn rhithiol):

S.A. Curry

A. Evans

W.T. Evans

D. Jones

M.J.A. Lewis

K. Madge

D.E. Williams

B.A.L. Roberts (yn
arsylwi)

Hefyd yn bresennol (yn y Siambr):

A. Vaughan-Owen, Aelod Cabinet dros Newid yr Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol (yn y Siambr):

R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
J. Power, Uwch Swyddog Trwyddedu

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol (yn rhithiol):

J. Power, Prif Swyddog Trwyddedu

M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 10.00 yb - 12.21 yp

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr K. Howell, H. Jones a B.D.J. Philips.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

3. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFODYDD YR IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU A GYNHALIWDYD AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:-

3.1. IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU "A" A GYNHALIWDYD AR 16 AWST 2022

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor Trwyddedu 'A' a gynhaliwyd ar 16 Awst 2022, gan eu bod yn gywir.

3.2. IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU "B" A GYNHALIWYD AR 26 GORFFENNAF, 2022

PENDERFYNWYD Ilofnodi cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor Trwyddedu 'B' a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2022, gan eu bod yn gywir.

4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR 12 GORFFENNAF 2022

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL Ilofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2022, gan eu bod yn gywir.

5. PENODI'R CYNG LOUVAIN ROBERTS I LENWI'R SEDD AR IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU B A ADAWYD YN WAG GAN Y CYNG CRANHAM

Rhodddwyd gwybod i'r Pwyllgor, yn dilyn penodiad y Cynghorydd L. Roberts i'r Pwyllgor Trwyddedu, gan gymryd lle'r Cynghorydd M. Cranham, y byddai angen ei phenodi i'r swydd wag ar Is-bwyllgor Trwyddedu 'B'.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL benodi'r Cynghorydd L. Roberts i wasanaethu ar Is-bwyllgor Trwyddedu B'.

6. ADOLYGIAD O UCHAFSWM TABL PRISIAU CERBYDAU HACNAI

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn darparu gwybodaeth am geisiadau a oedd wedi dod i law i gynyddu'r uchafswm tabl prisiau presennol o ganlyniad i argostau cynyddol i berchenogion tacsis.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys yr opsiynau canlynol ar gyfer ailstrwythuro'r uchafswm tabl prisiau presennol ar gyfer cerbydau hacnai.

- Opsiwn 1 Cynigiwyd gan Gymdeithas Cerbydau Hacnai Sir Gaerfyrddin;
- Opsiwn 2 Cynigiwyd gan Aelodau'r Tariff masnach;
- Opsiwn 3 Cynigiwyd gan Aelodau'r fasnach.

Rhodddodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu yr ystadegau canlynol a dangosyddion sy'n berthnasol i berchnogion tacsis:-

- Costau tanwydd;
 - Prisiau petrol a diesel cyfartalog y DU - Mawrth 2011
 - Prisiau petrol a diesel cyfartalog y DU - Rhagfyr 2021
 - Prisiau petrol a diesel cyfartalog y DU - Gorffennaf 2022
 - Prisiau petrol a diesel cyfartalog y DU - Hydref 2022
 - Costau presennol petrol a diesel mewn gorsafoedd tanwydd lleol – Rhydaman, Caerfyrddin a Llanelli
- Isafswm Cyflog Cenedlaethol a Chyfraddau Cyflog Byw Cenedlaethol
 - Cyfraddau presennol
 - Cyfraddau cyn Ebrill 2016
- Tabl Cenedlaethol y DU (gan gynnwys Cymru) - Yn seiliedig ar Daith 2 Filtir ar Dariff 1.

Wrth ystyried y wybodaeth a ddarparwyd, dywedwyd bod yr hinsawdd ariannol wedi dirywio ymhellach ers y cynnydd tariff diwethaf yn 2022, a bod costau byw yn cynyddu'n gyflym.

Esboniodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod ymgynghoriad wedi bod ar y fasnach tacsis yn Sir Gaerfyrddin ym mis Hydref 2021 ar gais a ddaeth i law am gynyddu'r uchafswm tabl prisiau ar gyfer cerbydau hacnai. Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, daeth 80 o ymatebion i law gan 513 o yrwyr ac roedd 79 o blaid cynnydd.

Yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2021, bu'r Pwyllgor Trwyddedu yn ystyried y cynnig y gynyddu'r uchafswm tabl prisiau ar gyfer cerbydau hacnai. Wrth ystyried y cais hwn, ystyriodd y Pwyllgor ffactorau amrywiol megis costau tanwydd, costau rhedeg, isafswm cyflog, costau byw, cymariaethau mewn tariffau gydag awdurdodau cyfagos ac awdurdodau eraill yng Nghymru a'r DU, a'r amser ers i'r tariff gael ei gynyddu diwethaf. Penderfynodd y Pwyllgor hysbysebu'r cynnig newydd yn y wasg leol ar gost o ychydig o dan £3,000 i'r Awdurdod ac y byddai'r tariff yn weithredol pe na fyddai unrhyw gwrthwynebiadau'n dod i law. Ar 17 Ionawr 2022 daeth y tariff newydd i rym yn Sir Gaerfyrddin gan na chafwyd unrhyw wrthwynebiadau gan y cyhoedd.

Mewn ymateb i'r cynnydd sydyn mewn costau tanwydd, bu'r Adain Drwyddedu yn gofyn am sylwadau a chynigion gan 500 o yrwyr tacsis yn Sir Gaerfyrddin ym mis Gorffennaf 2022. Cafodd yr Adain Drwyddedu 6 ymateb gydag awgrymiadau mewn perthynas â'r tariffau.

Eglurwyd bod yr opsiynau a gynigir i'r Pwyllgor eu hystyried heddiw wedi'u hanfon ymlaen ym mis Medi 2022 fel rhan o ymgynghoriad i'r 500 o yrwyr tacsis yn Sir Gaerfyrddin. Allan o'r 18 ymateb a ddaeth i law o'r fasnach;

- 13 oedd o blaid Opsiwn 1
- 1 oedd o blaid Opsiwn 2
- 2 oedd o blaid Opsiwn 3
- Doedd 2 ddim eisiau cynnydd.

Roedd cynrychiolydd o Gymdeithas Cerbydau Hacnai Sir Gaerfyrddin yn bresennol yn y cyfarfod a chafodd gyfle i annerch y Pwyllgor i gefnogi ei gynnig a amlinellir yn Opsiwn 1 o'r adroddiad.

Roedd aelodau, o ran y wybodaeth a dderbyniwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu a chynigydd, yn ystyried yr uchafswm tabl prisiau presennol ar gyfer cerbydau hacnai presennol a'r cynigion ailstrwythuro fel y nodir yn yr adroddiad.

Dywedwyd nad oedd yr opsiynau arfaethedig ar hyn o bryd yn cefnogi cerbydau hacnai annibynnol mewn perthynas â theithiau tacsî hir.

Yn unol â'r cynnydd cyffredinol mewn costau, cynigiwyd ailstrwythuro'r uchafswm tabl prisiau presennol ar gyfer cerbydau hacnai drwy fabwysiadu'r prisiau tocynnau o fewn Opsiwn 1, yn amodol ar ddiwygio tariff 1 i adlewyrchu dydd Gwener a dydd Sadwrn 6.00am tan 8:00pm. Eiliwyd y cynnig hwn.

Yn deillio o bryderon a godwyd o ran effaith cynnydd pellach i dariffau tacsis, i'r cwsmer ac i berchnogion tacsis, cynigiwyd cadw'r uchafswm tabl prisiau

presennol ar gyfer cerbydau hacnai heb unrhyw newidiadau a pheidio â chynnal ymgynghoriad. Eiliwyd y cynnig hwn.

PENDERFYNWYD:

6.1 ailstrwythuro'r uchafswm tabl prisiau presennol ar gyfer cerbydau hacnai yn unol ag Opsiwn 1 yn yr adroddiad, gan ddiwygio tariff 1 i adlewyrchu dydd Gwener a dydd Sadwrn 6.00am tan 8.00pm;

6.2 cyhoeddi'r diwygiadau arfaethedig i'r tabl prisiau presennol, fel y nodir yn yr adroddiad, mewn papurau newyddion lleol, gan roi 14 diwrnod i unrhyw berson gyflwyno gwrthwynebiadau, yn unol ag Adran 65 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Os na fydd unrhyw wrthwynebiadau, caiff y tariffau eu rhoi ar waith.

7. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

8. MR CRAIG ALLAN RICHARD MORGAN TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Mr Craig Allan Richard Morgan o 16 Penydre, Bryntirion, Llanelli, yn berchen ar drwydded yrru ddeuol ar gyfer cerbyd hacnai/hurio preifat gyda'r Awdurdod hwn.

Rhoddodd y Swyddog Trwyddedu wybod i aelodau'r Pwyllgor am y materion a oedd wedi codi mewn perthynas â'i drwydded.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Morgan ynghylch y materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod Mr Morgan yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol

Ar hynny:

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gynnal sesiwn breifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, fod Mr Craig Allan Richard Morgan yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

9. MRS ABIGAIL RACHEL JONES CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mrs Abigail Rachel Jones o 44 Heol Stepney, y Garnant, Rhydaman, am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Rhoddodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu wybod i aelodau'r Pwyllgor am y materion a oedd wedi codi mewn perthynas â'i thrwydded.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweid â Mrs Jones ynghylch ei chais a'r materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mrs Jones yn cael ei ganiatáu a'i bod yn cael rhybudd ynghylch ei hymddygiad yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu cais Mrs Abigail Rachel Jones am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddi ynghylch ei hymddygiad yn y dyfodol.

10. MR ANDREW PAUL REES CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Andrew Paul Rees o 56 Maestir, Llanelli am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Rhoddodd y Swyddog Trwyddedu wybod i aelodau'r Pwyllgor am y materion a oedd wedi codi mewn perthynas â'i drwydded.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweid â Mr Rees ynghylch ei gais a'r materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Rees yn cael ei wrthod.

Ar hynny:

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gynnal sesiwn breifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

PENDERFYNWYD caniatáu cais Mr Andrew Paul Rees am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Rheswm

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, yr oedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

CHAIR

DATE

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Eitem Rhif 6

Yn rhinwedd paragraff(au) 12 o Ran 4 o Atodlen 12A o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Eitem Rhif 7

Yn rhinwedd paragraff(au) 12 o Ran 4 o Atodlen 12A o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Eitem Rhif 8

Yn rhinwedd paragraff(au) 12 o Ran 4 o Atodlen 12A o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol